Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu**

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

**Diben**

Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2023 yn nodi bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) bŵer cyfreithiol a dyletswydd i:

> *'ymrwymo i gytundebau cydweithredu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, cyrff plismona eraill a phartneriaid sy'n gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona ar gyfer un neu fwy o gyrff plismona neu wasanaethau heddlu mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl (lle mae hyn yn ymwneud â swyddogaethau'r gwasanaeth heddlu, rhaid cael cytundeb y Prif Gwnstabl);'* (paragraff 17h)

A

> *'dyletswydd i sicrhau bod pob cytundeb cydweithredu gyda heddluoedd a Chyrff Plismona Lleol eraill yn cyflenwi gwell gwerth am arian neu'n uchafu effeithiolrwydd galluoedd plismona a chadernid;'* (paragraff 20d)

Y mae hefyd yn nodi bod y Prif Gwnstabl yn atebol i'r cyhoedd ac i'r CHTh am:

> *'ymrwymo i gytundebau cydweithredu gyda Phrif Gwnstabliaid eraill, cyrff plismona eraill a phartneriaid sy'n gwella effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd plismona, a gyda chydsyniad eu Cyrff Plismona unigol;'* (paragraff 23i)

Mae Deddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan atodlen 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, yn dweud yn glir bod yn rhaid i Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid barhau i adolygu trefniadau cydweithredu a chydweithredu lle y mae er budd effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd ardal heddlu eu hunain ac ardaloedd heddlu eraill.

Wrth benderfynu p'un a yw cytundeb cydweithredu presennol neu arfaethedig o fudd, neu o fudd posibl, i effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd un neu fwy o wasanaethau heddlu, mae adran 23HA yn mynnu bod yn rhaid i Brif Swyddogion a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ystyried y canlynol yn arbennig:

- cytundebau cydweithredu sy'n bodoli eisoes, a threfniadau eraill ar gyfer cydweithredu, y mae gwasanaethau heddlu'n bartïon sydd â diddordeb ynddynt;
- dymunoldeb gwasanaethau heddlu'n cymryd ymagwedd gyson o ran gwneud cytundebau o'r fath a threfniadau eraill, a
- chyfleoedd sydd ar gael i'r gwasanaethau heddlu dan sylw wneud cytundebau o'r fath a threfniadau eraill.

**Mae Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar gyfer Cydweithredu Rhwng Heddluoedd** yn darparu fel a ganlyn mewn perthynas â llywodraethu a goruchwylio trefniadau cydweithredol:

102. Wrth benderfynu pa strwythurau llywodraethu i'w rhoi ar waith ar gyfer dal eu prif swyddogion i gyfrif ar y cyd am weithgarwch cydweithredol, bydd cyrff plismona eisiau ystyried **ffurfio pwyllgor goruchwylio ar y cyd a fydd yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu neu eu cynrychiolwyr**. Er y bydd prif swyddogion unigol dal yn cael eu dal i gyfrif gan eu corff plismona eu hunain, gall pob prif swyddog dan sylw fod yn atebol i bwyllgor archwilio ar y cyd am eu perfformiad mewn perthynas â chydweithredu.

103. Mae'n debygol y bydd pwyllgor goruchwylio ar y cyd eisiau cysylltiad a chyngor prif swyddogion sy'n cymryd rhan yn y cydweithrediad, a dylid llunio cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgor goruchwylio ar y cyd er mwyn darparu ar gyfer hyn.

Ni all prif swyddogion fod yn rhwym yn weithredol i benderfyniadau pwyllgor goruchwylio ar y cyd yn fwy na phenderfyniadau corff plismona.

Mae Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu'n rhoi cyfle i oruchwylio a chraffu ar y cyd ar berfformiad cydweithrediadau sy'n effeithio ar heddluoedd yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod cydweithrediadau'n daprau gwerth am arian a buddion dangosadwy i bobl Cymru, gan weithio i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru.

**Llywodraethu**

Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru fydd yn enwebu Cadeirydd y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth atebolrwydd o unrhyw gydweithrediad presennol neu arfaethedig yng Nghymru sy'n cynnwys unrhyw un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru neu'r pedwar ohonynt (ond nid trydydd partïon), yn bennaf drwy oruchwylio Bwrdd Rhaglen

Cydweithrediad Heddluoedd Cymru a thrwy alw unrhyw gydweithrediadau presennol neu arfaethedig i mewn ar gyfer craffu. Ni fydd y Bwrdd yn goruchwylio cydweithrediadau rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddluoedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, er enghraifft.

Bydd y broses 'galw i mewn' yn cynnwys gofyn am gyflwyniad o'r cytundeb cydweithredu presennol neu arfaethedig ac unrhyw adroddiadau perthnasol megis achosion busnes ac adroddiadau cynnydd. Mewn ymgynghoriad â'r pedwar Prif Gwnstabl, bydd Aelodau o'r Bwrdd yn cytuno ar y cwmpas a'r ffocws, a rhestr o Brif Swyddogion i'w gwahodd i gynghori'r Bwrdd. Caiff yr ysgrifenyddiaeth a / neu swyddfeydd CHTh unigol hefyd gynnig unigolion eraill o'r heddluoedd perthnasol i gymryd rhan a chynghori'r Bwrdd. Gall y cyngor hwn fod ar ffurf cymysgedd o gyflwyniadau ysgrifenedig a/neu lafar.

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cydlynu'r trefniadau ar gyfer derbyn a rhannu gwybodaeth ysgrifenedig, papurau a chwestiynau awgrymedig, yn ogystal â threfniadau ymarferol ar gyfer darparu cyfraniadau llafar yn y cyfarfodydd dynodedig.

Bydd barn y Bwrdd ac unrhyw argymhellion neu geisiadau sy'n codi'n cael eu llunio mewn adroddiad gan ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona yng Nghymru er ystyriaeth. Bydd unrhyw faterion na all y Bwrdd eu datrys, neu faterion sydd angen eu dwysáu, yn cael eu hystyried yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona yng Nghymru.

**Awdurdod a Chyfrifoldebau**

Ni fydd gan y Bwrdd yr awdurdod i ymrwymo adnoddau na phenderfynu pa un ai a ddylid ymrwymo i unrhyw gydweithrediadau neu eu gadael. Bydd yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Plismona yng Nghymru o ran ei farn am effeithiolrwydd a / neu effeithlonrwydd cytundebau cydweithredu presennol neu arfaethedig. Cytunir hefyd na all Prif Swyddogion fod yn rhwym yn weithrediadol i unrhyw un o benderfyniadau neu argymhellion y Bwrdd, yn unol â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Cydweithrediadau'r Heddlu.

Yn unol ag adrannau 22 a 23 Deddf Plismona 1996 a Gorchymyn Protocol Plismona 2023, bydd Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu'n:

- Sicrhau bod cofrestr gynhwysfawr o holl gydweithrediadau'r heddlu'n cael ei dal a'i chynnal yn ganolog;
- Adolygu unrhyw gydweithrediadau arfaethedig cyn eu bod nhw'n cael eu cymeradwyo gan unrhyw un o'r gwasanaethau heddlu yng Nghymru;
- Craffu ar berfformiad cydweithrediadau yn erbyn eu hachosion busnes a'u trefniadau cydweithredu;

- Ystyried peryglon, archwiliadau ac arolygiadau allanol mewn perthynas â chydweithrediadau;
- Gofyn am gysylltiad a chyngor prif swyddogion sy'n cymryd rhan mewn cydweithrediadau i alluogi Comisiynwyr i ddal eu prif swyddogion unigol i gyfrif;
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol;
- Darparu her cyfaill beirniadol i sbarduno gwelliant o ran gwasanaethau plismona; a
- Sicrhau bod trefniadau cydweithredu'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi'n briodol.

**Aelodaeth**

- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu neu Ddirprwy Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru
- Prif Weithredwyr Heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru
- Prif Swyddogion Ariannol (CHTh) Heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru
- Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu

- Pennaeth y Bwrdd Rheoli Cydweithredu
- Arweinydd Rhaglen Cydweithredu a Newid Cymru Gyfan (PGC)
- Uwch Berchnogion Cyfrifol prosiectau 'byw'
- Cydweithredu Rheolwr Rhaglen Cymru Gyfan
- *Gofynnir i Arweinwyr Prosiect fod yn bresennol ar sail angen yn unig*

**Amlder cyfarfodydd**

Bydd y Grŵp yn cwrdd bob chwarter, ar amser a fydd yn galluogi cynnydd i gael ei adrodd wrth y Bwrdd Plismona yng Nghymru mewn modd amserol.

**Ysgrifenyddiaeth**

Bydd Uned Gyswllt yr Heddlu'n gweithredu fel yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfod hwn.

Bydd agenda ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu'n cael eu rhannu ymysg Aelodau o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. O'r herwydd, rhaid i'r ysgrifenyddiaeth dderbyn papurau i'w hystyried 6 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd angen i'r Cadeirydd gymeradwyo adroddiadau brys neu hwyr cyn iddynt gael eu cynnwys er ystyriaeth y Bwrdd.

Mae Uned Gyswllt yr Heddlu'n gyfrifol am gynnal cofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu. Bydd hyn yn cynnwys rheoli a chyhoeddi'r cofnodion a chrynhoi agendâu a phapurau cyfarfod. Bydd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu

cyflwyno i'r Cadeirydd ar gyfer cymeradwyaeth o fewn wythnos i'r cyfarfod ac o fewn 3 diwrnod gwaith ar gyfer Aelodau. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod am ganlyniadau a chamau gweithredu cydweithrediadau perthnasol ac yn sicrhau bod materion yn cael eu dwysáu'n briodol i gyfarfodydd y Bwrdd Plismona yng Nghymru.

Bydd blaenraglen waith yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn. Bydd y Bwrdd Plismona yng Nghymru'n adolygu hyn ar sail chwarterol.

Rhaid cyflwyno papurau ar gyfer Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu ar ffurf gytûn. Bydd angen i bob papur a dderbynnir gael ei farcio'n briodol yn unol â Chynllun Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth er mwyn diogelu rhag datgelu amhriodol.

Bydd materion a drafodir yng nghyfarfodydd Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu sydd â sensitifrwydd gweithrediadol, sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol, neu sydd â sensitifrwydd masnachol naill ai'n cael eu cyhoeddi ar adeg briodol yn y dyfodol neu'n cael eu cadw gan Uned Gyswllt yr Heddlu. Gwneir penderfyniadau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac offerynnau statudol eraill neu reoliadau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth plismona a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu**

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 0.4 |
| Awdur: | Carys Morgans |
| Dyddiad cymeradwyo: | 12.09.24 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Plismona yng Nghymru |
| Dyddiad adolygu: | 12.09.25 |